



Rhaglen Anghenion Tystiolaeth ac Ymchwil Bioamrywiaeth ac Ecosystemau (BEERN) Ffurflen cais am arian 2019 Canllawiau a chwestiynau cyffredin

Beth yw Rhaglen BEERN?

Nod Rhaglen Anghenion Tystiolaeth ac Ymchwil Bioamrywiaeth ac Ecosystemau (BEERN) yw adnabod a mynd i'r afael ag anghenion tystiolaeth ac ymchwil bioamrywiaeth ac ecosystemau a fydd yn cyflenwi ac yn effeithio ar flaenoriaethau polisi a chyflenwi yng Nghymru.

Mae'r rhaglen yn ymgysylltu â'r gymuned ymchwil yng Nghymru a thu hwnt, yn cyflenwi ymdriniaethau newydd ac yn cyd-fynd â dulliau cyfredol i sicrhau darpariaeth dda o dystiolaeth a chyingor i Lywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, y sector amgylcheddol ehangach ac eraill.

Mae rhagor o wybodaeth am y Rhaglen ar [wefan](#) Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru.

Beth yw Cynllun Adfer Natur Cymru a'i amcanion?

Mae'r Cynllun Adfer Natur yn mynd i'r afael ag achosion sylfaenol colli bioamrywiaeth trwy roi natur wrth wraidd ein penderfyniadau; cynyddu cydnherthedd ein hamgylchedd naturiol; a chymryd camau penodol dros gynefinoedd a rhywogaethau. Mae'n nodi sut bydd Cymru yn cyflawni ymrwymïadau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Strategaeth Bioamrywiaeth yr UE i atal dirywiad ein bioamrywiaeth erbyn 2020 a gwyrddroi'r dirywiad hwnnw wedyn.



Rhaid i'r prosiect gyd-fynd yn glir ag un neu fwy o Amcanion 1 - 4 y Cynllun Adfer Natur.

Amcanion Cynllun Adfer Natur Cymru	
AMCAN 1 Ennyn a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn i fioamrywiaeth fwrw gwreiddiau yn y broses benderfynu ar bob lefel.	Mae rhoi lle canolog i natur wrth wneud penderfyniadau yn hanfodol er mwyn mynd i'r afael ag achosion craidd colli bioamrywiaeth. Mae diffyg ymwybyddiaeth, a'r gwerthusiad dilynol o gyfraniad hollbwysig ein natur i'n lles a'n bywoliaeth, yn golygu nad ydym yn ystyried y cyfraniad hwnnw wrth wneud penderfyniadau, ar bob lefel o gymdeithas, o unigolion i awdurdodau lleol i fusnesau.
AMCAN 2 Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd sydd o'r pwys mwyaf a'u rheoli'n well	Dyma flociau adeiladu ein hecosystemau a'r ffordd maen nhw'n gweithio, a chawn lu o wasanaethau a manteision yn eu sgil. Mae safleoedd sydd wedi'u dynodi ar gyfer cadwraeth natur: o ran cynnal amrywiaeth naturiol; cyfrannu at wasanaethau a manteision ecosystemau a gwarchod a gwella ein bioamrywiaeth a'n geoamrywiaeth mwyaf prin.



Amcanion y Cynllun Adfer Natur	
AMCAN 3 Gwneud ein hamgylchedd naturiol yn fwy cydnerth drwy adfer cynefinoedd sydd wedi'u diraddio a chreu cynefinoedd.	Ystyr cynefinoedd wedi'u diraddio yw'r rhai nad ydynt bellach yn cynnal potensial llawn ein bywyd gwyllt cynhenid. Er mwyn diogelu ein rhywogaethau gwarchoddedig a chryfhau cydnerthedd rhywogaethau a chynefinoedd ar raddfa ehangach, mae angen inni adfer rhwydweithiau o gynefinoedd i gyflwr iach ledled Cymru, ar y tir ac yn y môr. Bydd gwaith adfer yn seiliedig ar bedair priodoledd cydnerthedd: cynyddu bioamrywiaeth; ehangu ecosystemau drwy leihau darnio; gwella'r cysylltedd o fewn ecosystemau a rhyngddynt; a gwella cyflwr cynefinoedd.
AMCAN 4 Mynd i'r afael â'r pwysau allweddol ar rywogaethau a chynefinoedd	Mae arferion rheoli'r tir a'r môr yn gallu cael effaith niweidiol ar golli a darnio cynefinoedd a rhywogaethau. Mae'r pwysau allweddol a nodwyd gan Asesiad Cenedlaethol y DU o Ecosystemau ac eraill yn cynnwys: amaethyddiaeth; trefoli; llygredd; rhywogaethau estron goresgynnol; ewtroffigedd; asideiddio; gweithgarwch anghynaliadwy gan bobl a newid yn yr hinsawdd. Mae'n hanfodol rhagweld, atal a lliniaru'r hyn sy'n arwain at golli bioamrywiaeth wrth ei wraidd, gan ddefnyddio ein deddfwriaeth, ac atebion arloesol a chyfannol sy'n seiliedig ar natur.

Mae copi llawn o'r Cynllun Adfer Natur ar gael [yma](#) a manylion pellach ar gael [yma](#) hefyd.

Faint o arian sydd ar gael?

Mae hyd at £1000 o grantiau ar gael i bob ceisydd. Darperir nawdd gan Lywodraeth Cymru, sy'n aelod o Grŵp Llywio Rhaglen BEERN.

Pwy sy'n cael gwneud cais?

Mae'r grantiau ymchwil bach hyn yn addas i brosiectau ymchwil penodol a gynhelir gan fyfyrwr israddedig, meistr ac ôl-raddedig.

Dylai arweinwyr prosiect drafod y prosiect gyda'u goruchwilydd academiaidd cyn cyflwyno cais. Arweinwyr prosiect ddylai gyflwyno'r cais, er bod croeso i oruchwylwyr prosiect/arweinwyr academiaidd wneud cais os oes angen.

Beth alla i ei gynnwys fel costau?

Rhaid i geisiadau ddangos darn o ymchwil penodol a fydd yn arwain at ganlyniad penodol e.e. traethawd wrth gwblhau'r cyllid.

Gall cynnwys prosiectau amrywio, a gallant gynnwys costau sy'n gysylltiedig â gwneud astudiaethau maes neu waith desg, arolygon a gweithgareddau gwyddoniaeth dinasyddion. Er enghraifft, costau cyfarpar a meddalwedd, defnyddiau traul (e.e. deunyddiau), treuliau teithio rhesymol (ac eithrio hedfan) a chynhaliath tuag at ymchwil maes hanfodol.



Rhaid i brosiectau gael eu cynnal yma yng Nghymru. Rhaid i unrhyw waith arolwg a gynhelir y tu allan i Gymru fod yn gwbl berthnasol i Gynllun Adfer Natur Cymru, a dylai'r ffurflen gais ddangos pa mor berthnasol ydyw.

Beth yw'r amserlen ariannu?

Rhaid anfon cais erbyn **31 Gorffennaf 2019** am **5pm**. Grŵp Llywio Rhaglen BEERN fydd yn adolygu ceisiadau, a bydd ceisiadau sy'n bodloni amcanion y Cynllun Adfer Natur i'r carn ac sy'n cynnwys gwybodaeth gyflenwi glir, yn cael eu trin yn hynod ffafriol. Byddwn wedyn yn anfon ymateb erbyn diwedd mis Awst.

Sut mae cyflwyno'r ffurflen gais am arian?

Gallwch anfon cais at Raglen BEERN trwy Bartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru. E-bostiwch eich ffurflen gais i walesbiodiversitypartnership@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk.

Gwybodaeth ychwanegol

- Rhaid darparu canlyniadau'r prosiect ymchwil i Raglen BEERN ar ôl ei gwblhau, er enghraifft adroddiad traethawd myfyriwr israddedig. Byddwn yn cyhoeddi'r canlyniadau ar y wefan, fel y bo'n addas.
- Byddwn yn estyn gwahoddiad i arweinwyr prosiectau gyflwyno poster ymchwil yng Nghynhadledd Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yn ystod hydref 2020 neu mewn cynhadledd ddilynol.
- Mae cadw a rhannu data yn egwyddorion allweddol y rhaglen. Lle bo modd, dylech ystyried bod rhannu data yn elfen allweddol o'r prosiect. Er enghraifft, cyflwyno unrhyw gofnodion rhywogaethau i'ch [Canolfan Cofnodion Amgylcheddol Leol](#). Os nad ydych chi'n gallu ymrwymo i rannu data, rhowch fanylion.
- Cofiwch gydymffurfio â [Safonau'r Gymraeg](#) fel bo'r angen.
- Bydd Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yn cadw'r wybodaeth sydd ar eich ffurflen gais ac yn ei rhannu ag aelodau [Grŵp Llywio Rhaglen BEERN](#). Os ydych chi'n caniatáu inni gadw'ch gwybodaeth, gallwch dynnu hwn yn ôl unrhyw bryd a gofyn inni ddileu eich gwybodaeth. Darllenwch ein [Polisi Preifatrwydd](#) sy'n disgrifio'r modd rydyn ni'n casglu, defnyddio a rhannu'ch gwybodaeth chi.

Cyswllt

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, cysylltwch â Rhaglen BEERN Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru trwy e-bostio walesbiodiversitypartnership@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk.